**<u>Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni</u>**

Noddir gan Mark Isherwood AS

**Dyddiad:**

30 Tachwedd 2023, 11:00 – 12:30

**Lleoliad:**

Hybrid – Tŷ Hywel a thrwy Microsoft Teams

**<u>Yn bresennol</u>**

**Deiliaid Swyddi'r Grŵp Trawsbleidiol**

Mark Isherwood AS (Cadeirydd)
Sioned Williams AS
Jack Sargeant AS
Patricia Denning (ar ran Heledd Fychan AS)
Ryland Doyle (ar ran Mike Hedges AS)
Yasmin Zahra (ar ran Luke Fletcher AS)
Ioan Bellin (ar ran Delyth Jewell AS)

**Rhanddeiliaid**

Ben Saltmarsh (Gweithredu Ynni Cenedlaethol ,Ysgrifenyddiaeth) Maisie Chatfield (Gweithredu Ynni Cenedlaethol), Maya Fitchett (Gweithredu Ynni Cenedlaethol), Claire Durkin (Ymddiriedolwr Gweithredu Ynni Cenedlaethol), Joseph Carter (Asthma + Lung UK), Mason Steed (Ymddiriedolaeth Arbed Ynni), Steffan Evans (Sefydliad Bevan), Hannah Peeler (Gofal a Thrwsio Cymru), Haf Elgar (Cyfeillion y Ddaear Cymru), James Radcliffe (Ofgem), Patrick Gould (Ofgem), James Crump (Ofgem), Niamh Salkeld (Plaid Cymru), Gareth Phillips (Llywodraeth Cymru), Amy Dutton (Cyngor ar Bopeth Cymru), Becky Ricketts (Gofal a Thrwsio Cymru), Ceri Cryer (Age Cymru), David Cowdrey (The MCS Foundation), Joanna Seymour (Cymru Gynnes), Elizabeth Lambert (Cyngor Caerdydd), Lindsey Kearton (Cyngor ar Bopeth Cymru), Matthew Dicks (CIH Cymru), Meilyr Tomos (Cyngor Gwynedd), Natasha Wynne (Marie Curie Cymru), Llŷr Randles (Cyngor Caerdydd), Sandy Ruthven (Asiantaeth Ynni Hafren Gwy), Shelley Webber (Cyngor Sir y Fflint), Sion Evans (Comisiynydd Pobl Hŷn), Tim Thomas (Property Mark), Jane Hutt Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

**Ymddiheuriadau**

Llyr Gruffydd AS
Archesgob Cymru
David Kirkby (CIOB)
Bethan Sayed (Hinsawdd Cymru)

**<u>Crynodeb o'r drafodaeth</u>**

1. **Croeso a chyflwyniad (Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol)**

a. Croesawyd y rhai a oedd yn bresennol a rhoddwyd trosolwg o'r agenda, gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp.

b. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod gwir a chywir gan Steffan Evans (Sefydliad Bevan) a Haf Elgar (Cyfeillion y Ddaear Cymru).

c. Rhoddwyd trosolwg o'r papurau i'w nodi:
   i. Llythyr at y Prif Weinidog gan Gweithredu Ynni Cenedlaethol a chlymblaid o dros 140 o sefydliadau ynglŷn ag ymgynghoriad ar dariff ynni cymdeithasol.
   ii. Llythyr at Claire Coutinho AS, yr Ysgrifennydd Gwladol, yn cefnogi'r un peth gan Mark Isherwood AS fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol.
   iii. Yr ymateb a gafwyd gan Amanda Solloway AS, y Gweinidog Defnyddwyr Ynni a Fforddiadwyedd.

d. Ailetholwyd Mark Isherwood AS yn ddiwrthwynebiad yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni yn dilyn enwebiad gan Jack Sargeant AS, a chefnogwyd hyn gan Sioned Williams AS.

e. Ailetholwyd Ben Saltmarsh (Gweithredu Ynni Cenedlaethol) yn Ysgrifennydd yn ddiwrthwynebiad fel y cynigiwyd gan Steffan Evans (Sefydliad Bevan), a chefnogwyd hyn gan Sioned Williams AS.

2. **Diweddariad polisi (Ben Saltmarsh, Pennaeth Cymru, Gweithredu Ynni Cenedlaethol)**

a. Darparwyd diweddariad ar y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â'r argyfwng ynni. Roedd y wybodaeth honno'n cynnwys y canlynol:
   i. Crynodeb o'r datblygiadau allweddol, gan gynnwys y cap ar brisiau'n codi tua £100 (5%) o fis Ionawr gan ddod â ffigur debyd uniongyrchol tanwydd dwbl i £1,928 y flwyddyn ar gyfartaledd; colli cefnogaeth y llywodraeth; a lefelau cynyddol o ddyled tanwydd.
   ii. Nid oes unrhyw dargedau tlodi tanwydd interim yng Nghymru eto; mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael ei chaffael, yn canolbwyntio ar adeiladwaith a'r gwaethaf yn gyntaf, ond yn debygol o fynd yn fyw ym mis Ebrill 2024; mae ECO4 ar gael yn rhwydd ond ar ei hôl hi, ac mae Prif Weinidog y DU wedi cyhoeddi llwybr newydd i sero net, gan ddileu cynlluniau i wella rheoliadau effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat.
   iii. O ran marchnadoedd, mae Ofgem yn parhau i wneud newidiadau drwy addasiadau i gapiau ar brisiau a diwygiadau i amodau trwydded. Mae materion allweddol yn cynnwys dyled, gwasanaeth cwsmeriaid, a gwahaniaethau pris yn seiliedig ar y math o daliad a daearyddiaeth. Darperir manylion ynglŷn â Galwad Ofgem am Fewnbwn ar 'lefelu'.
   iv. Dywedodd Ben ei bod yn Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Tlodi Tanwydd a chyhoeddodd fanylion Cynhadledd Tlodi Tanwydd Cymru sydd i ddod ddydd Iau 7 Mawrth 2024.

b. Sesiwn holi ac ateb
   i. Gofynnodd Jack Sargeant AS a hoffai'r Grŵp Trawsbleidiol gymryd rhan yn ymgynghoriad Ofgem ar daliadau sefydlog o ystyried yr anghysondebau rhanbarthol. Rhoddwyd manylion hefyd am adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y sgandal ym maes mesuryddion rhagdalu yng Nghymru.
      1. Un o'r papurau i'w nodi oedd llythyr gan Mark Isherwood AS at Amanda Solloway AS. Hoffem ymateb i hyn fel Grŵp a'u gwahodd i gyfarfod yn y Flwyddyn Newydd.
   ii. Gwnaeth Sandy Ruthven (Asiantaeth Ynni Hafren Gwy) sylwadau ar ffigurau dyled, gan ddangos yr angen am dariff ynni cymdeithasol.

1. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer Cyngor ar Bopeth, o ran niferoedd ar fesuryddion rhagdalu sy'n gofyn am gymorth. Mae'r un peth ar gyfer Gofal a Thrwsio Cymru y mae ei adroddiad diweddaraf yn datgelu bod cleientiaid yn gwario 19% o'u hincwm ar ynni ar gyfartaledd.

iii. Gwnaeth Tim Thomas (Property Mark) gyfraniadau am ECO4 a'i feini prawf hyblygrwydd. Aethpwyd i'r afael ag anhawster ALlau i wneud y defnydd gorau o'r cyllid o ganlyniad i adnoddau. A fyddai'r pwyllgor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am gefnogaeth gyda hyn?

1. Nododd Ben Saltmarsh y byddai Tim yn cael cyfle i ofyn yn uniongyrchol i'r Gweinidog yn ddiweddarach yn y cyfarfod.
2. Dywed Joanna Seymour (Cymru Gynnes) fod Cymru Gynnes yn darparu cymorth yn y maes hwn. Yn edrych ar gymorth ac yn defnyddio ECO i gyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni ac yn gweithio gydag ALlau. Mae'n bwysig dod â chymaint o gyllid â phosibl i mewn, yn enwedig i'r sector rhentu preifat.
3. Prif bryder Meilyr Tomos (Cyngor Gwynedd) fel ALl yw mynediad i'r llwybr pwrpasol, Llwybr 4 ECO 4.

iv. Dywedodd Lindsey Kearton (Cyngor ar Bopeth) fod Cyngor ar Bopeth yn ailgomisiynu arolwg o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu ledled Cymru i ddeall sut mae pobl yn ymdopi y gaeaf hwn. Bydd yn rhannu maes o law.

v. Mae Llyr Randles (Cyngor Caerdydd) yn edrych i fynd yn fyw gydag ECO LA Flex yn y flwyddyn newydd. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cael rhywfaint o arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith cyflawni. Byddai'n ddefnyddiol cael adnodd canolog i gymeradwyo datganiadau.

vi. Roedd Hannah Peeler (Gofal a Thrwsio Cymru) yn trafod ymchwil newydd i incwm cleientiaid dros y tair blynedd diwethaf. Mae 19% o incwm yn cael ei wario ar filiau cyfleustodau, sy'n golygu eu bod mewn tlodi tanwydd. Nid yr ynni y maent yn ei ddefnyddio yw'r hyn sydd ei angen arnynt. Nid yw'r sefyllfa wedi gwella, mae angen ateb hirdymor.

vii. Mae Steffan Evans (Sefydliad Bevan) yn nodi bod dadl ar dlodi tanwydd yr wythnos nesaf ac y bydd yn cylchredeg sesiwn friffio ar y cyd o gwmpas yr ASau gyda Gweithredu Ynni Cenedlaethol. Mae ymchwil hefyd wedi'i gomisiynu ynghylch plant; canfu ymchwil fod chwarter plant Cymru yn poeni am fod yn oer.

viii. Mae Mark Isherwood AS yn nodi bod Marie Curie wedi lansio ymgyrch i ychwanegu pobl â salwch terfynol i gael eu hystyried fel meini prawf cymhwysedd fel rhan o'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

1. Dywed Sioned Williams AS fod y Gweinidog Newid Hinsawdd wedi dweud y bydd ei swyddogion yn gweithio gyda Marie Curie i ystyried hyn a sicrhau eu bod yn grŵp gwarchodedig. Mae Plaid Cymru wedi trefnu dadl yr wythnos nesaf yn edrych yn benodol ar y Rhaglen Cartrefi Clyd a thlodi tanwydd.

3. **Blaenoriaethau cyfredol a sesiwn holi ac ateb gyda'r Gweinidog (Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip)**

a. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y blaenoriaethau presennol a sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi aelwydydd agored i niwed drwy'r argyfwng costau byw, gan gynnwys:

i. Cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol
ii. Partneriaeth gyda'r Sefydliad Banc Tanwydd

iii. 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi', ymgyrch cynyddu incwm
iv. Y Cynllun Nyth
    1. Nid yw adroddiad blynyddol 2022-23 wedi'i gyhoeddi eto.
    2. Mae'r contract wedi'i ymestyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024 tra bod yr iteriad newydd o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael ei gaffael, disgwylir i lythyrau gael eu dyfarnu ym mis Rhagfyr i ddechrau ym mis Ebrill 2024.
    3. Mae cymhwysedd wedi'i wella i gynnwys y rhai ar incwm isel, nid budd-daliadau prawf modd yn unig.
v. Archwilio cyfleoedd eraill, gan gynnwys ECO.
vi. Diweddaru'r strategaeth tlodi tanwydd.
vii. Cafwyd cyfarfod ag Amanda Solloway, y Gweinidog dros Ddefnyddwyr Ynni a Fforddiadwyedd, i drafod cyfleoedd ar gyfer tariff ynni cymdeithasol, cymorth bil ynni wedi'i dargedu, taliadau sefydlog a mesuryddion rhagdalu.
viii. Cafwyd cyfarfod ag Ofgem, gofynnwyd i'r adolygiad o daliadau sefydlog fod yn glir ynghylch annhegwch y system. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad.
ix. Trafodwyd yr angen am fwy o gymorth i gwsmeriaid agored i niwed, yn dilyn newidiadau sy'n ei gwneud yn haws i'r rhai sy'n cael trafferth cysylltu â'u cyflenwr, gael cynlluniau ad-dalu fforddiadwy a gohirio ad-dalu dros dro. Mewn perthynas â hyn, bydd angen i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:
x. Cyfarfod â chyflenwyr ynni i drafod yr un peth.
xi. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r Cod Ymarfer newydd ar fesuryddion rhagdalu Anwirfoddol y mae Ofgem wedi'u gwneud yn orfodol. Bydd yn parhau i fonitro hyn.

b. Sesiwn holi ac ateb
    i. David Cowdrey (The MCS Foundation): A fydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adolygiad o drefniadau'r farchnad drydan er mwyn helpu i ostwng biliau trydan? A fydd yn cysylltu â'r Trysorlys ac yn gofyn i dariffau amgylcheddol a chymdeithasol gael eu symud oddi ar filiau trydan i drethiant cyffredinol gan y bydd hyn yn gostwng biliau trydan 22.5%?
        1. Byddai'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn ymhelaethu ar eich pwynt cyntaf. Rydym bob amser wedi gofyn y dylai costau cymdeithasol fod mewn trethiant cyffredinol, ac mae angen inni barhau i ofyn am hynny ond mae'r alwad am drefniadau tariff cymdeithasol yn cael ei chefnogi'n eang yn awr, felly rhaid inni ganolbwyntio ar hynny.
    ii. Tim Thomas (Property Mark): Nid yw'r awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gallu defnyddio arian ECO yn effeithiol oherwydd adnoddau. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gefnogi awdurdodau lleol gyda gweinyddiaeth?
        1. Drwy gyngor ac arweiniad Nyth a 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi', rydym yn annog pobl i archwilio cyfleoedd ECO. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw cynorthwyo.
        2. Gareth Phillips (Llywodraeth Cymru): Rydym wedi bod yn gweithio gyda CLlLC a phartneriaid lleol eleni i sicrhau mwy o gymorth i awdurdodau lleol drosoli arian o'r cynlluniau ECO. Mae gan Nyth gyllideb gyfyngedig, felly rydym am wneud y mwyaf o'r llwybr hwn.
    iii. Tim Thomas (Property Mark): A oes unrhyw gynlluniau i Lywodraeth Cymru gefnogi landlordiaid ac asiantau yn benodol i ddatgarboneiddio eu heiddo?

    1. Gareth Phillips (Llywodraeth Cymru): Dyna bortffolio'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Mae gennym y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ar gyfer landlordiaid cymdeithasol. Byddwn yn ymchwilio i hyn.
    2. Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Byddwn yn codi hyn gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd.

iv. Dr Steffan Evans (Sefydliad Bevan): Un pryder yw maint y Rhaglen Cartrefi Clyd. Pa farn ehangach sydd ar hynny ac ar ddarparu cymorth ariannol i bobl yn y cyfamser?
    1. Ni allwn ddibynnu ar y Rhaglen Cartrefi Clyd yn unig. Adborth yw hwn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd, ond mae'n rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu yn ein sefyllfa gyllidebol anodd. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu ac yn archwilio llwybrau eraill. Mae yna hefyd waith arall o fewn tai cymdeithasol. Mae mynd i incwm isel a gwaethaf yn gyntaf yn hollbwysig ac mae wedi cael ei groesawu fel prif bwynt polisi.
    2. Gareth Phillips (Llywodraeth Cymru): Mae'n rhaid inni weithio gyda Llywodraeth y DU i gael cymorth. Os yw pobl yn cael trafferth, dylent fynd at eu cyflenwyr cyn gynted â phosibl.

v. Mark Isherwood AS: Byddai'r llinell gyngor ynni yn rhoi cyngor ar y gwahanol gynlluniau a rhaglenni, y DU, Cymru neu fel arall, a fydd hynny'n dal i fod yn wir gyda'r rhaglen newydd?
    1. Bydd, mae casgliad portffolio cyfan o gymorth a chyngor. Fel y dywedais, rydym yn siomedig nad oes dim byd arall wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth y DU, ond dywedodd Amanda Solloway nad oes dim wedi'i ddiystyru. Roedd hi hefyd wedi siarad am y posibilrwydd o welliannau gyda'r Gostyngiad Cartrefi Clyd.
    2. Ben Saltmarsh (Gweithredu Ynni Cenedlaethol): Yn Gweithredu Ynni Cenedlaethol, galwasom am gymorth ac ymgynghoriad wedi'i dargedu ar dariff ynni cymdeithasol, ond ni wireddwyd y pethau hyn yn Natganiad yr Hydref.

vi. Jack Sergeant AS: Mae gennyf bryderon mawr am y cod ymarfer, gan fod Scottish Power wedi cyhoeddi gwarantau i fesuryddion rhagdalu gorfodol yn ddiweddar, gan gynnwys yng nghartrefi'r rhai sy'n dod o dan y categori 'Risg Uchel'. Nid yw hyn yn rhoi unrhyw hyder i mi yn y cod. Diolch am gefnogaeth y Gweinidog gyda hyn.
    1. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro hyn a'i wylio'n ofalus iawn. Mae'r rhain yn gwsmeriaid agored i niwed nad oes ganddynt y modd na'r llesiant i fod yn gweiddi am hyn.

vii. Shelley Webber (Cyngor Sir y Fflint): Mae gennym aelod o'r tîm sy'n rhedeg y cynllun ECO Flex i ni mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych. Mae'n ddefnyddiol cael ychydig o gynghorau at ei gilydd i'w redeg i chi. Yna, mae'n bosibl monitro'r cynllun a rhoi'r cwsmer yn gyntaf. Rydym hefyd yn dod ag ardal sylfaenol ynghyd, gan ddod â pherchnogion preswyl a rhentwyr preifat i mewn i geisio mynd i'r afael â phroblemau yn yr ardal ehangach. Mae hwn yn brosiect sy'n gweithio'n dda iawn.
    1. Mae hyn yn mynd yn ôl at beth mae awdurdodau lleol a beth maent yn gallu ei wneud, gan wneud y mwyaf o'r cynllun. Byddwn yn codi hyn yn ein cyfarfodydd Aelod Cabinet gyda CLlLC i rannu'r arfer da hwn.

viii. Sioned Williams AS: Clywsom am ffaith bod dyled waeth. A oes gennych unrhyw syniad am y cynnydd yn y galw ar y Gronfa Cymorth Dewisol? Rwy'n dal i ddod ar draws diffyg ymwybyddiaeth ac anawsterau mynediad. A oes gwaith wedi bod i godi ymwybyddiaeth?
    1. Mae gennym grŵp partneriaeth ar y Gronfa Cymorth Dewisol i'n helpu i gael pethau'n iawn. Byddwn yn bwydo hynny'n ôl. Mae'n cael ei wario hyd at y

gyllideb, ond nid ydym wedi cyrraedd yr wythnosau oer eto, mae'n gyllideb sy'n cael ei harwain gan alw. Gallaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut rydym yn codi rhagor o ymwybyddiaeth.

ix. Sioned Williams AS: Er mwyn egluro, dywedwyd wrthym fod tendro'n dechrau ym mis Awst ac y byddai wedi'i orffen erbyn diwedd mis Tachwedd, gyda'r cynllun newydd yn weithredol y gaeaf hwn. A allech roi rhagor o fanylion am hynny?
   1. Gareth Phillips (Llywodraeth Cymru): Rydym wedi symud ymlaen yn y broses gaffael. Mae yna reolau a gweithdrefnau penodol y mae'n rhaid i ni gadw atynt gyda chontract o'r maint hwn. Rydym yn gwneud popeth er mwyn sicrhau ei fod yn fyw o fis Ebrill 2024, ac mae cynllun Nyth yn rhedeg tan fis Mawrth er mwyn sicrhau nad oes bwlch yn y ddarpariaeth.
   2. Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Gallwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion hynny. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis undebau credyd, i gefnogi'r ymgyrch cynyddu incwm, ac rydym wedi creu cyfrifiannell budd-daliadau dwyieithog i gefnogi hyn.

**4. Diweddariadau Ofgem (James Crump, Pennaeth Mesuryddion Clyfar, Ofgem)**

a. Rhoddwyd diweddariad ar ddatblygiadau diweddaraf Ofgem. Y prif bwyntiau oedd:

i. Mae'r cap ar brisiau dyled uniongyrchol ar gyfer mis Ionawr ychydig dros £2,000, £800 yn uwch na thair blynedd yn ôl. Mae hyn o ganlyniad i gost cyfanwerthu ynni.
ii. Ffigurau dyled dros £2.6 biliwn ac yn codi, hanner biliwn yn uwch ers dechrau'r flwyddyn a mwy na dwbl ers cyn COVID.
iii. Yn ymgymryd â gwaith cydymffurfio a chodi safonau, gan sicrhau bod pob cyflenwr yn trin pob cwsmer yn deg, gan gynnwys safonau llymach ar osod mesuryddion rhagdalu'n anwirfoddol a safonau llymach ar wasanaethau cwsmeriaid.
iv. Galwad am fewnbwn ynghylch taliadau sefydlog i archwilio opsiynau ynghylch y mater hwn a sicrhau bod y dull a ddefnyddir yn addas i gwsmeriaid.
v. Lansiwyd ymgynghoriad statudol i gadw'r premiwm mesuryddion rhagdalu islaw'r cap ar brisiau yn barhaol.
vi. Cyflymu'r broses o rannu data er mwyn sicrhau bod cynifer o aelwydydd sy'n agored i niwed yn cael eu nodi ac yn cael cynnig cymorth.
vii. Gweithio gyda diwydiant i edrych ar sut olwg y gallai fod ar gofrestr gwasanaethau blaenoriaeth gyffredinol neu genedlaethol.
viii. Goruchwylio'r rhai sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ar gael.
ix. Sicrhau bod mesuryddion clyfar ar gael i bob cwsmer.
x. Galwad am fewnbwn ar gyfer y strategaeth cwsmeriaid agored i niwed newydd.

b. Sesiwn holi ac ateb

i. Jack Sergeant AS: Y terfyn oedran ar hyn o bryd o ran bod yn agored i niwed yw 75 oed. Nid yw hyn yn cyd-fynd â Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r gwaith ar fod yn agored i niwed yn ymddangos yn llai hael nag y gallai fod. Mae pryder hefyd na fydd cyflenwyr ynni yn cadw at y cod ymarfer newydd, felly hoffwn geisio rhywfaint o sicrwydd na fydd y materion hyn yn codi eto. Os nad oes gan Ofgem y sicrwydd neu'r hyder, yna mae angen inni wybod a rhoi rheoliadau gwell i chi gan Lywodraeth y DU.
ii. Mark Isherwood AS: Roedd nifer y gosodiadau a orfodwyd gan Scottish Power yr un lefel â Nwy Prydain, er ei fod yn gyflenwr llai. Mae gennyf ddiddordeb mewn

gwybod pa ystyriaeth y mae Ofgem wedi'i awgrymu bod rhai cyflenwyr yn perfformio'n waeth nag eraill.

1. Byddwn yn gweithio mor galed ag y gallwn er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Bydd ymgorffori'r cod ymarfer yn amodau ein trwydded yn ei gwneud yn llawer haws. Mae ffiniau clir i gyflenwyr. Byddwn yn cymryd camau mwy uniongyrchol a chyflymach pan fyddwn yn ei weld.

iii. Mark Isherwood AS: A fyddwch chi'n adolygu'r terfyn oedran?

1. Byddwn yn adolygu ein strategaeth agored i niwed.
2. Patrick Gould (Ofgem): Gwyddom fod llawer o grwpiau defnyddwyr a Llywodraeth Cymru wedi codi hyn. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pryderon ynghylch hyn. Mae dau gategori, peidiwch â gosod ac angen asesiad pellach. Mae disgwyliadau pellach gan gyflenwyr yno, ond bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos.

iv. Ben Saltmarsh (Gweithredu Ynni Cenedlaethol): Beth yw'r ffordd orau i sefydliad nodi neu rybuddio Ofgem mewn achosion lle nad yw cyflenwr yn dilyn y rheolau newydd?

1. Mae gennym sianeli sy'n bodoli eisoes ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddwn yn meddwl am hyn ac yn ystyried sut y gallwch ein helpu i fonitro hyn.

v. Jack Sergeant AS: Mae angen ei adnewyddu a'i adolygu. Byddai'n dda pe gallai Ofgem roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp yn ysgrifenedig am yr adolygiad.

1. Ie, byddwn yn sicr yn ystyried hynny. Bydd yn rhywbeth rydym yn ei fonitro a byddwn yn casglu data gan gyflenwyr ar eu perfformiad yn erbyn y mesurau hyn.
2. Amlygwyd rôl mesuryddion clyfar ar gyfer cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o ddatgysylltu eu hunain. Mae'r rheoliadau newydd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar gyflenwyr i osod mesuryddion clyfar.

vi. Becky Ricketts (Gofal a Thrwsio Cymru): Pwy sy'n gyfrifol o fewn cwmnïau ynni neu Ofgem am benderfynu pwy sy'n agored i niwed? A ydynt yn dod o dan y categori peidiwch â gosod neu angen asesiad pellach? A fydd unrhyw gyfraniad gan weithwyr gofal iechyd a meddygol proffesiynol?

1. Bydd yn rhywun o'r cyflenwr ynni. Bydd Ofgem yn monitro perfformiad ac mae'n gobeithio y bydd yn gallu sicrhau bod y prosesau hynny'n gadarn. O ran cynnwys gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, rwy'n ansicr a fydd hynny'n ofyniad, ond bydd angen iddynt ddangos i ni'r broses ar gyfer nodi i ba gategori y maent yn perthyn. Byddwn yn disgwyl cael sicrwydd gan gyflenwyr.
2. Patrick Gould (Ofgem): Mae diffiniad Ofgem o fod yn agored i niwed yn eithaf eang er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn deall amgylchiadau cwsmeriaid yn rhagweithiol. Mae disgwyliad ar sail egwyddor ar gyflenwyr i ddiwallu eu hanghenion. Hwn oedd y tro cyntaf i ni greu rhestr gyda gosod mesuryddion rhagdalu yn anwirfoddol, a hynny heb ymgynghoriad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

**5. Diwedd**

a. Diolchodd Mark Isherwood AS i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.